# Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy

## 26 Ebrill 2023

Yn Besennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Cynghorydd S Hancock, Dr M Havard, Dr R Plummer a'r Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall.

[Ymunodd y Cynghorydd S Alderman â’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar adroddiad 04/23, yr Adroddiad Ariannol.]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.15am)

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**
Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol (personol) ynghylch ei haelodaeth o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel ymddiriedolwr Plantlife. Hefyd datgelodd Dr R Plummer fuddiant personol yn SDF/042023/1 ac yn SDF/042023/6. Datgelodd Dr M Havard fuddiant personol yn SDF/042023/1. Datgelodd y Cynghorydd M James fuddiant personol yn SDF/042023/1 fel Aelod a benodwyd gan Gyngor Sir Penfro, fodd bynnag dywedodd bod gan y Cynghorwyr Sir oddefeb i siarad a phleidleisio ar geisiadau a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023 i’w cadarnhau a’u dilysu.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023.

**4. Log Gweithredu**

**a) <u>Taliadau fesul Cam</u>**
Dywedodd y Swyddog y byddai’r Awdurdod o hyn ymlaen yn cadw 10% o'r grant yn ôl hyd nes y byddai derbynnydd y grant yn cyflwyno adroddiad diwedd prosiect. Ychwanegwyd petai hyn yn effeithio ar lif arian y prosiect, y byddai'r Awdurdod yn barod i fod yn hyblyg lle bo modd.

b) **Ymweliadau Safle Prosiectau SDF**

Cadarnhawyd bod yr ymweliadau safle wedi'u trefnu ar gyfer 5 Gorffennaf 2023 ac y byddai pob Aelod o'r Parc Cenedlaethol yn cael eu gwahodd i'r ymweliadau. Gofynnodd y Swyddog i'r Aelodau gynnig awgrymiadau ynghylch y prosiectau y dymunent ymweld â hwy.

**5. Adroddiad Ariannol**

Cyflwynodd y Pennaeth Datgarboneiddio ddiweddariad ar sefyllfa ariannol gyfredol y gronfa Datblygu Cynaliadwy. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r ymrwymiadau ariannol presennol, map o'r prosiectau a gymeradwywyd, rhestr o'r prosiectau a gwblhawyd ers y cyfarfod blaenorol, a chrynodeb o sefyllfa ariannol y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn y flwyddyn 2023/24. Cadarnhawyd bod y Swyddogion mewn cysylltiad â chydlynwyr prosiect yr oedd eu gwaith papur diwedd prosiect yn hwyr yn dod i law.

Cyfeiriodd un Aelod at y map o brosiectau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a thynnodd sylw at y ffaith bod nifer uchel o'r prosiectau mewn rhai ardaloedd penodol o Sir Benfro, a holodd a ddylid monitro hyn. Ychwanegwyd bod rhai o'r adroddiadau diwedd prosiect a gyflwynwyd o ansawdd gwael, a gofynnwyd am i'r Swyddogion fod yn ymwybodol o hyn er mwyn sicrhau bod pob adroddiad yn cydymffurfio â safon penodol.

Dywedodd Aelod bod nifer o brosiectau i'w cwblhau fis Mawrth 2023 a gofynnodd a oedd yr adroddiadau terfynol wedi dod i law ar gyfer y prosiectau hyn. Cadarnhawyd bod adroddiadau wedi dod i law ar gyfer rhai o'r prosiectau ond bod y Swyddogion yn aros am ymatebion i gwestiynau a godwyd o ran y dogfennau a gyflwynwyd. Mewn ymateb i ymholiad a godwyd gan Aelod, cadarnhawyd bod rhai prosiectau wedi dewis hawlio eu grant yn ôl-ddyledus, ac awgrymodd yr Aelod y gellid nodi hyn yn y diweddariad ar y sefyllfa gyfredol.

**Nodwyd.**

**6. Diweddariad ar y Prosiect Gwyrddu Amaethyddiaeth**

Roedd adroddiad y Swyddog Cyswllt Cadwraeth Fferm yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiectau sy'n rhedeg ar hyn o bryd a'r ymrwymiadau ariannol cyfredol o ran y ceisiadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod blaenorol.

Dywedodd un Aelod bod prosiect GA22/PENDDU, Penrallt Ddu, Pont-faen wedi ei oedi hyd nes y rhoddir caniatâd cynllunio ôl-weithredol i'r safle, a gofynnodd am eglurhad pellach. Cadarnhawyd, er nad oedd y mater yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynllun hwn, bod y penderfyniad wedi'i wneud i gadw'r cyllid yn ôl hyd nes bod pob caniatâd cynllunio

angenrheidiol yn ei le. Y gobaith oedd y byddai hyn wedi digwydd erbyn diwedd yr Haf.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd gan Aelod, cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyfyngiadau ar ffermydd allai wneud cais i'r prosiect, megis bod rhwydd hynt i ffermwyr tenant wneud cais.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â nifer y dyfynbrisiau sydd eu hangen ar gyfer pob prosiect, a'r broses yr oedd gofyn i ymgeiswyr ei dilyn i gael y dyfynbrisiau hyn. Cadarnhawyd y cedwir at y fframwaith caffael, a bod gofyn i unrhyw eitem rhwng £10,000 a £25,000 gael mwy nag un dyfynbris. Ychwanegwyd y byddai angen i un elfen sy'n costi mwy na £25,000 gael ei hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru ar gyfer caffael agored.

Cadarnhaodd y Swyddog bod y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau ar y cynllun wedi'i ymestyn tan ddiwedd mis Mai er mwyn rhoi mwy o amser i geisiadau o ansawdd uwch gael eu cyflwyno.

**Nodwyd.**

**7. Eithrio'r cyhoedd**

Nodwyd y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn bersonol neu'n fasnachol sensitif wrth drafod y ceisiadau, ac felly gofynnwyd am eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Dr M Havard, **PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**8. Ceisiadau i'w Hystyried**

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu chwe chais a wnaed i'r gronfa ers y cyfarfod blaenorol, ac yn atgoffa'r Aelodau bod pedwar categori ar gyfer ceisiadau:

A. Gosod cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn adeilad cymunedol
B. Menter i hyrwyddo gostwng allyriadau carbon mewn trafnidiaeth
C. Gosod cyfleuster cymunedol sy'n lleihau gwastraff
D. Unrhyw fenter gymunedol arall sy'n lleihau carbon

| Math | Cyf | Sefydliad | Cyllid a Geisir £ |
|---|---|---|---|
| A | SDF /042023/1 | Ymddiriedolaeth Môr Cymru | 21,407 |
| A | SDF /042023/2 | Ymddiriedolaeth Gymunedol Theatr Gwaun | 20,042 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| C | SDF/042023/3 | Acts Gorllewin Cymru - Cilrath Acre | 8,920 |
| D | SDF/042023/4 | Awel Aman Tawe | 17,135 |
| D | SDF/042023/5 | Clwb Pêl-droed Chwaraeon Abergwaun | 5,760 |
| D | SDF/042023/6 | Amaethyddiaeth Gymunedol Organig Caerhys | 12,028 |
| | | **Cyfanswm y cyllid a geisir** | **£85,292** |

Ystyriwyd pob cais yn fanwl yn erbyn y templed sgorio ac yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD**:

(i) Caniatáu’r swm llawn o gyllid y gofynnir amdano i’r ceisiadau canlynol, yn amodol ar amodau arferol y grant:

a) SDF /042023/1 - Ymddiriedolaeth Môr Cymru: Labordy Cefnfor Gwyrddach - *gan y byddai gosod paneli yn costi mwy na £25k, byddai'n ofynnol i'r ymgeiswyr bwrcasu’r gwaith yn agored.*
b) SDF /042023/2 - Ymddiriedolaeth Gymunedol Theatr Gwaun: Gwelliannau i’r Storfa Batri/ Paneli Solar
c) SDF/042023/3 - Acts Gorllewin Cymru: Cilrath Acre - *cyllid yn amodol ar benderfyniad ar Ganiatâd Cynllunio.*
d) SDF/042023/4 - Awel Aman Tawe: Ymgyrchwyr Ynni Ydyn Ni
e) SDF/042023/5 - Clwb Pêl-droed Chwaraeon Abergwaun: Datblygiadau Parc Tre-groes
f) SDF/042023/6 - Amaethyddiaeth Gymunedol Organig Caerhys: Gwreiddiau Newydd COCA 2023

(ii) Anfon tystysgrif SDF at bob ymgeisydd llwyddiannus i'w harddangos i'r cyhoedd er mwyn hyrwyddo'r cynllun ymhellach.